# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10 Chwefror 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dewi Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Yr Adran Addysg |
| **Teitl yr Eitem:** | Papur Cynnig - Ysgol Y Garreg |

---

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol, yn caniatáu cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018: ar y cynnig a ganlyn -

1.2 "Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

1.3 Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai dalgylch Ysgol Cefn Coch yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Y Garreg.

**2 RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Gofynnir am ganiatâd i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig er mwyn cyfarch sefyllfa argyfyngus Ysgol Y Garreg. Mae'r cwymp sylweddol yn niferoedd y dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Y Garreg yn ddiweddar wedi arwain at sefyllfa anghynaladwy a hynod o fregus. Ar sail CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2026, Ysgol Y Garreg yw'r ysgol leiaf yn y sir, gyda dim ond 2 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ar y gofrestr a 0 yn y dosbarth meithrin.

2.2 Mae'r Adran Addysg yn cyflwyno'r adroddiad yma i'r Cabinet yn gofyn am ganiatâd i gynnal cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig i gau Ysgol Y Garreg yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chod statudol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion). Manylir ar yr y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu yng nghorff yr adroddiad.

## 3 CYFLWYNIAD

**Cyd-destun Strategol**

3.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" ers i'r Cyngor Llawn ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion "Addysg Addas i Bwrpas" sydd bellach yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r egwyddorion hyn yn gweithio tuag at resymoli ystod oedran o fewn dosbarthiadau cynradd a sicrhau amser digyswllt digonol i benaethiaid ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn yr ysgolion cynradd.

**Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig**

3.2 Yn achos Ysgol Y Garreg sydd wedi ei dynodi yn ysgol wledig at ddiben y cod, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas â llunio cynigon ar gyfer ysgolion gwledig wrth lunio'r papur cynnig hwn.

3.3 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys gweithdrefn arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Fe nodir yn y Cod *"Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffederaleiddio."*

3.4 Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n rhaid hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas a chynnig arfaethedig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod, o'r opsiynau y credir y byddent yn mynd i'r afael â sefyllfa'r ysgol.

**Cau ysgol â llai na deg disgybl cofrestredig**

*3.5* Os oes gan ysgol lai na 10 o ddysgwyr ar y gofrestr pan gynhelir y cyfrifiad yma ym mis Ionawr (CYBLD - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion), mae'r Cod yn nodi:

> *"Mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu / awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol. Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli."*

3.6 Oherwydd bod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn Ysgol Y Garreg (CYBLD Ionawr 2026), mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth fyddai'n ofynnol ei wneud fyddai cyhoeddi'r rhybudd statudol.

3.7 Yn dilyn hynny byddai'r cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod yn mynd rhagddo, a byddai angen ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir cyn dod i benderfyniad terfynol. Ni cheir cyfeirio cynigion i gau ysgolion sydd gyda llai na 10 o ddysgwyr at Weinidogion Cymru yn unol ag adran 54 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## 4. CEFNDIR

4.1 Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Y Garreg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Llanfrothen. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn ddysgwyr llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

4.2 Yn seiliedig ar ffigyrau CYBLD Ionawr 2026, mae 95% o lefydd gweigion yn yr ysgol (Derbyn i Blwyddyn 6) felly mae'r ysgol yn gweithredu gyda lefel uchel iawn o lefydd gweigion. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 41 o ddysgwyr (D i Bl6). Mae capasiti ar gyfer 7 o ddysgwyr yn y Dosbarth Meithrin. Gyda neb yn y dosbarth meithrin ar y gofrestr, mae 100% o lefydd gweigion yn y Meithrin.

4.3 Mae gostyngiad o 88% yn y niferoedd sy'n mynychu'r ysgol o'i gymharu a data CYBLD Ionawr 2025 pan oedd 17 o ddysgwyr ar y gofrestr. Pan fydd niferoedd dysgwyr yn gostwng i lefelau isel iawn, yn enwedig islaw 10 mae'r gallu i sicrhau cyflwyno cwricwlwm eang i'r dyfodol yn cael ei lesteirio. Mae'r nifer isel o ddysgwyr yn codi pryderon ynghylch:

- Profiad addysgol a rhyngweithio â chyfoedion
- Hyfywedd a gwydnwch staffio
- Cynaliadwyedd ariannol a defnydd effeithlon o adnoddau
- Y gallu i fodloni gofynion statudol y cwricwlwm

## 5 SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL Y GARREG

5.1 Ym mis Medi 2025 roedd 9 o ddysgwyr ar y gofrestr (Derbyn i Blwyddyn 6) gyda 0 dysgwr yn y Dosbarth Meithrin. Yn ystod tymor yr Hydref bu cwymp sylweddol yn y niferoedd a dengys CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) ar y dyddiad 20 Ionawr 2026 mai dim ond 2 o ddysgwyr sydd yn yr ysgol (Derbyn i Blwyddyn 6) gyda 0 dysgwr yn y Dosbarth Meithrin, gostyngiad o 78% o ddysgwyr yn yr ysgol yn ystod un tymor.


5.2 Mae newidiadau mewn niferoedd dysgwyr yn ystod y flwyddyn academaidd yn tarfu ar y modelu rhagamcanu arferol sy'n seiliedig ar niferoedd. Mae newidiadau sydyn yn niferoedd y dysgwyr fel arfer yn cymryd tua pedair blynedd i sefydlogi, ac mae dewis rhieni o ysgol yn cael effaith ar sut mae ffigyrau cofrestru yn newid o un flwyddyn i'r llall.

5.3 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf cadarn sydd ar gael wrth gynllunio lleoedd ysgol, dengys cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026 nad oes dysgwyr o oed statudol yn mynychu dosbarthiadau Derbyn i Blwyddyn 5 yn Ysgol Y Garreg. Yn ystod llunio'r adroddiad hwn (Ionawr 2026) nid oedd unrhyw geisiadau ar gyfer mynediad i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi 2026 yn Ysgol Y Garreg. O ganlyniad ac yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth gadarn o dderbyniadau newydd yn y dyfodol agos, rhagwelir na fydd dysgwyr o oedran statudol yn mynychu Ysgol Y Garreg ym mis Medi 2026.

5.4 Dengys y data niferoedd CYBLD hanesyddol isod fod y niferoedd wedi gostwng yn sylweddol ac yn sydyn yn Ysgol Y Garreg. Mae'r sefyllfa yma yn sgil symudiad dysgwyr blwyddyn Derbyn i Blwyddyn 5 yn ystod tymor yr Hydref 2025 o Ysgol Y Garreg i ysgolion eraill.

| Niferoedd dysgwyr yn Ysgol Y Garreg (CYBLD Ionawr hanesyddol) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Meithrin** | **Derbyn** | **Bl1** | **Bl2** | **Bl3** | **Bl4** | **Bl5** | **Bl6** | **Cyfanswm** |
| **2026** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | **2** |
| **2025** | 1 | 2 | 0 | 1 | 2 | 3 | 3 | 5 | **17** |
| **2024** | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 | 2 | 5 | 3 | **16** |
| **2023** | 0 | 3 | 1 | 3 | 2 | 5 | 3 | 2 | **19** |
| **2022** | 2 | 1 | 3 | 2 | 6 | 3 | 2 | 0 | **19** |
| **2021** | 2 | 2 | 2 | 6 | 2 | 2 | 0 | 6 | **22** |

***Ffynhonnell data CYBLD Ionawr***



**Y prif heriau sy'n wynebu'r ysgol:**

5.5 O ganlyniad i'r niferoedd isel iawn presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa argyfyngus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Dengys data CYBLD Ionawr 2026 fod 2 ddysgwr llawn amser yn yr ysgol (Derbyn i Blwyddyn 6) a 0 dysgwr yn y dosbarth meithrin.
- **Arweinyddiaeth a staffio –** Mae strwythur staffio presennol Ysgol y Garreg yn cynnwys pennaeth mewn gofal dros dro sydd yn gyfrifol am ddwy ysgol drwy drefniant anffurfiol, un athrawes llawn amser a chymhorthydd dros dro (0.6 FTE). Mae'r trefniant staffio presennol wedi cynnig datrysiad tymor byr; fodd bynnag, mae'r niferoedd isel iawn o ddysgwyr wedi cyfrannu at sefyllfa sy'n heriol o ran cynaliadwyedd hirdymor.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2026 (Derbyn i Blwyddyn 6) mae 95% o lefydd gweigion yn yr ysgol (39 mewn nifer). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 41 o ddysgwyr (Derbyn i Blwyddyn 6) a chapasiti ar gyfer 7 o ddysgwyr yn y Dosbarth Meithrin. Felly gyda 0 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 7 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Maint dosbarthiadau bychain iawn ac amrediad oedran eang –** Mae'r dysgwyr (Derbyn i Bl6) yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth. Nid oes defnydd o'r ail ddosbarth. Nid oes dysgwyr ym mlynyddoedd Meithrin i Blwyddyn 5 yn yr ysgol.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion yn seiliedig ar niferoedd CYBLD Ionawr 2026 yn awgrymu na fydd dysgwyr o oedran statudol yn yr ysgol ym mis Medi 2026 gan nad oes dysgwyr yn y dosbarthiadau Derbyn i blwyddyn 5 nac ychwaith yn y dosbarth Meithrin eleni.
- **Dysgwyr y dalgylch –** Dengys data GIS Ionawr 2026 mai dim ond 8% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 92% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Ysgol Y Garreg yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd –** Mae Ysgol Y Garreg yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £89,701.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Y Garreg yn 2025-26 yw £14,621 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,780.

## 6 TRAFODAETHAU GYDA CHORFF LLYWODRAETHU YSGOL Y GARREG

6.1 Ym mis Mehefin 2025, hysbyswyd yr Adran Addysg am bryderon ynghylch sefyllfa staffio'r ysgol. Cynghorwyd y pennaeth a'r corff llywodraethol gan uwch swyddogion o'r Adran Addysg fod angen gweithredu yn ddi-oed ar gyfer sicrhau lefelau staffio priodol ar gyfer mis Medi 2025.

6.2 Yn sgil hysbysebu am swydd athro parhaol yn ystod tymor yr haf, ni lwyddwyd i benodi athro i'r ysgol cyn ddiwedd y tymor. Yn ystod y cyfnod hwn cofnodwyd nifer o drosglwyddiadau dysgwyr i ysgolion cyfagos, a arweiniodd at ostyngiad sylweddol yn nifer y dysgwyr yn Ysgol Y Garreg erbyn mis Medi 2025.

6.3 Bu ymweliad gan Uwch Swyddogion o'r Adran Addysg i'r ysgol i gyfarfod gydag aelodau o'r Corff Llywodraethu ym mis Tachwedd 2025 yn sgil trosglwyddiadau pellach o ddysgwyr yn ystod tymor yr Hydref. Nodwyd y bwriad i edrych ar sefyllfa argyfyngus Ysgol Y Garreg a'r opsiynau posib er mwyn ceisio ymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r ysgol.

## 7 FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CAU YSGOL

Er bod proses i gau ysgol gyda llai na 10 o ddysgwyr yn hepgor y gofyn i ymgynghori'n gyffredinol, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi fod rhaid ystyried materion perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y Cod. Mae'n nodi y dylid rhoi sylw arbennig i'r opsiynau canlynol wrth ystyried os yw'n briodol cau ysgol:

a. *A ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu resymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn.*

Gyda dim ond 2 ddysgwr yn yr ysgol, mae Ysgol Y Garreg yn wynebu her gynyddol i osod cyllideb gytbwys gan fod yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr, a bydd hynny, ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig yn seiliedig ar niferoedd o 2 ddysgwr. Oherwydd hyn mae Cyngor Gwynedd o'r farn ni ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw yr ysgol ar agor.

b. *A ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol.*

Gan y byddai clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, yn golygu parhau gyda'r ysgol bresennol, a felly bod tebygolrwydd uchel y bydd yr heriau presennol yn parhau ac yn dwysáu dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Cyngor felly o'r farn nad ydi gwneud hyn yn opsiwn fyddai'n cyfarch yr heriau sy'n wynebu Ysgol Y Garreg heddiw ac i'r dyfodol.

c. *A ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol.*

Gan fod Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen wedi ei lleoli drws nesaf i'r ysgol, ac mae'r dafarn lleol Menter Y Ring (Tafarn Brondanw Arms) wedi derbyn nawdd er mwyn ail-agor er budd y gymuned, ni ragwelir bod angen adnodd cymunedol arall yn yr ardal. Serch hynny, pe gweithredir y cynnig, mae gan Cyngor Gwynedd bolisi ôl-ddefnydd safleoedd ysgolion a byddai y polisi hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol y safle.

ch. *Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol).*

Does dim defnydd cymunedol o'r ysgol bresennol. Mae Canolfan Gymdeithasol wedi ei lleoli drws nesaf i'r ysgol. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn, gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith ar ddigwyddiadau cymunedol lleol.

d. *Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig.*

Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y dysgwyr, byddwn yn annog trafodaethau rhwng Ysgol Cefn Coch â rhieni dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg fel bod modd iddynt fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog cydweithio rhwng yr ysgol a chymuned Llanfrothen.

## 8 ADNABOD OPSIYNAU

8.1 Mae'r holl heriau a nodir yn 5.5 uchod yn golygu fod angen adolygu cynaliadwyedd yr ysgol i'r dyfodol gan roi ystyriaeth i'r hyn mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi fel enghreifftiau o opsiynau posibl y gallai fod yn werth eu hystyried wrth lunio'r cynnig ar gyfer ysgol wledig. Yn ystod trafodaethau gyda phrif rhanddeiliaid yr ysgol, crëwyd rhestr o opsiynau i'w hystyried ar gyfer yr ysgol. Yr opsiynau hyn oedd:

- Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen

**<u>Ystyriaethau eraill</u>**

8.2 Derbyniwyd sylwadau gan y corff llywodraethu oedd yn nodi pryderon ynghylch y cynnig i gau Ysgol y Garreg a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddarpariaeth addysg leol a chymuned Llanfrothen. Awgrymwyd ganddynt –

*"Pe bai'r Cyngor yn penderfynu cau'r ysgol, hoffwn eich annog yn gryf i ystyried ailstrwythuro'r adeilad fel canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth setlo mewn ysgolion prif lif, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer Ysgol Anghenion Dysgu Arbennig."*

8.3 Gofynnwyd i'r awdurdod ystyried yn ofalus yr effaith gymunedol a chymdeithasol yn lleol pe byddai'r ysgol yn cau ac i ystyried capasiti ac addasrwydd Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen. Pwysleisiwyd fod cyfle i gadw Ysgol y Garreg fel adnodd addysgol arbenigol yn hytrach na gwaredu'r ased.

## 9 GWERTHUSO OPSIYNAU

9.1 Yn unol â'r strategaeth "*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"* ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, sef:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Adnoddau ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau daearyddol a theithio

9.2 Gellir gweld cymhariaeth bellach o'r holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth yn **Atodiad 1** (Tabl Gwerthusiad Opsiynau) ac mae casgliad o werthusiad yr opsiynau unigol i'w gweld isod.

9.3 <u>Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol</u>

Byddai'r opsiwn yma'n golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Y Garreg.

Wedi pwyso a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n cyfarch yr heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol a nodir yn 5.5, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Byddai niferoedd isel o ddysgwyr yn parhau, 2 dysgwr Derbyn – Bl.6 a 0 dysgwr yn y dosbarth Meithrin a llefydd gweigion sylweddol (95% D-Bl.6 a 96% M-Bl.6). Mae rhagamcanion niferoedd yn awgrymu na fydd dysgwyr o oedran statudol yn mynychu'r ysgol ym mis Medi 2026.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Y Garreg gydag un o'r dosbarthiadau rheini yn wag. (Ionawr 2026) Mae 2 ddysgwr (Derbyn – Blwyddyn 6) yn un o'r dosbarthiadau.
- **Adnoddau ariannol** - Yn 2025-26 mae Ysgol Y Garreg yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol o £89,701, ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr yn £14,621, swm sydd yn uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Y Garreg.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2026 (Derbyn i Blwyddyn 6) mae 95% o lefydd gweigion yn yr ysgol (39 mewn nifer). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 41 o ddysgwyr (Derbyn i Blwyddyn 6) a chapasiti ar gyfer 7 o ddysgwyr yn y Dosbarth Meithrin. Felly gyda 0 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 100% o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Y Garreg yn 2025-26 yw £14,621 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,780.

9.4 Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Yn yr achos yma fe ystyriwyd ffederaleiddio gydag Ysgol Cefn Coch. Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Cefn Coch eisoes wedi ffederaleiddio gydag Ysgol Talsarnau (Ysgolion Afon Dwyryd yw enw'r ffederasiwn).

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Llanfrothen trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgolion cyfagos, dan arweiniad un pennaeth ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut byddai'r ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Y Garreg, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Y Garreg wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 2 ddysgwr (Derbyn – Bl.6) a 0 dysgwr yn y Dosbarth Meithrin ar y gofrestr a chan fod trefniant anffurfiol o gydweithio yn bodoli eisoes gydag ysgol arall, rhagwelwyd nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Y Garreg.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision ffederaleiddio, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn 5.5 uchod, gan gynnwys:

- **Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion.** Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn golygu fod yr her o niferoedd dysgwyr isel (2 Derbyn – Bl.6 a 0 Meithrin) a llefydd gweigion sylweddol (95% D-Bl.6 a 96% M-Bl.6) yn Ysgol Y Garreg yn parhau.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang**. Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Y Garreg gydag un o'r dosbarthiadau rheini yn wag. (Ionawr 2026) Mae 2 ddysgwr (Derbyn – Blwyddyn 6) yn un o'r dosbarthiadau.

Gan ni rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai ffederaleiddio yn ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain iawn.

- **Adnoddau ariannol**. Yn 2025-26 mae Ysgol Y Garreg yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol o £89,701, ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr yn £14,621, swm sydd yn uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,780. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Y Garreg.

9.5 Cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen.
Ystyrir Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen gan mae hi yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Y Garreg. Mae Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Y Garreg yn nalgylch uwchradd Ysgol Ardudwy. Mae'r ysgol wedi ei lleoli 2.1 milltir o safle Ysgol Y Garreg.

Er mai Ysgol Cefn Coch sydd wedi ei dynodi fel yr ysgol amgen at ddibenion y cynnig, nid yw hyn yn cyfyngu ar ddewis rhieni. Yn ddibynnol ar gapasiti, mae rhieni'n cadw'r hawl i fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol yn unol â pholisi mynediad ysgolion Gwynedd.

Yn dilyn hyn, cynigir ymestyn dalgylch Ysgol Cefn Coch i gynnwys dalgylch Ysgol Y Garreg ar gyfer y dyfodol.

Manylir ymhellach ar y rhesymeg y tu ôl i argymell y cynnig yma fel yr opsiwn a ffafrir yn Adran 11, Yr Opsiwn a Ffafrir.

## 10. ASESIADAU EFFAITH – RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOLION GWLEDIG

10.1. Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n ofynnol hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas â chynnig arfaethedig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod o'r opsiynau o dan ystyriaeth. Mae'r asesiadau llawn i'w gweld yn **Atodiad 2**, ac mae crynodeb o'r asesiadau hyn i'w weld yn y tabl isod:

| Opsiwn | Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg | Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio | Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned |
|---|---|---|---|
| **Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol** | Niwtral – Dim newid | Niwtral – Dim newid<br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Llanfrothen. |
| **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos** | Niwtral/Rhannol bositif– Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Y Garreg<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Y Garreg a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng yr ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn.<br>Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Llanfrothen. |
| **Cau Ysgol Y Garreg a** | Rhannol bositif | Negyddol | Niwtral/Rhannol Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen** | Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Cefn coch yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Y Garreg<br><br>Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Cefn Coch, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Y Garreg yn Ysgol Cefn Coch. | Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg a fyddai'n dymuno mynychu Ysgol Cefn Coch, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.<br><br>Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, oddeutu £30,000-£40,000 y flwyddyn.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Y Garreg angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Arwain at golli ysgol ym mhentref Llanfrothen.<br><br>I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Llanfrothen yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Llanfrothen, ble'n briodol.<br><br>Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Cefn Coch, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Ysgol Y Garreg yn bodoli eisoes. |

## 11. YR OPSIWN A FFAFRIR

11.1. O'r opsiynau a ystyriwyd, yr opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer y papur cynnig hwn yw'r opsiwn i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen.

11.2. Caiff yr opsiwn hwn ei ffafrio am y rhesymau a ganlyn:

11.3. Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion

11.3.1. Yn Ionawr 2026 (CYBLD) roedd 2 o ddysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6 a 0 Meithrin yn mynychu Ysgol Y Garreg. O ganlyniad, mae gan Ysgol Y Garreg 39 (95%) o lefydd gweigion yn yr ysgol (Derbyn – Blwyddyn 6). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 0 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 7 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal (100%).

11.3.2. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn diwethaf o 17 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 yn Ionawr 2025 i 2 ddysgwr yn Ionawr 2026, sef gostyngiad o 88%.

11.3.3. Yn ôl y rhagamcanion a grëwyd yn Medi 2025, rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau'n isel iawn dros y tair blynedd nesaf gyda niferoedd y dysgwyr yn parhau i fod o dan 10. Gwelir isod niferoedd Medi 2025 a rhagamcanion niferoedd Ysgol Y Garreg ar gyfer 2026-28.

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm D-Bl.6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Medi 2025** | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 2 | 3 | 9 |
| **Rhagamcanion Medi 2026** | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 2 | 6 |
| **Rhagamcanion Medi 2027** | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 4 |
| **Rhagamcanion Medi 2028** | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |

11.3.4 Yn Medi 2025 roedd 131 o ddysgwyr (Derbyn – Blwyddyn 6) a 15 o ddysgwyr Meithrin yn mynychu Ysgol Cefn Coch.

11.3.5 Mae gan Ysgol Cefn Coch gapasiti o 208 (Derbyn – Bl. 6), sy'n golygu fod gan Ysgol Cefn Coch gapasiti digonol ar gyfer derbyn dysgwyr dalgylch Y Garreg.

11.3.6 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi fod "gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol". O ganlyniad i'r niferoedd isel, mae 95% (39 mewn nifer) o lefydd gweigion (D-Bl-6) yn Ysgol Y Garreg.

11.4. **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran**

11.4.1 Fel y gwelir o'r tabl isod dim ond 1 dosbarth sy'n cael ei ddefnyddio yn Ysgol Y Garreg. Mae 2 ddysgwr blwyddyn Derbyn – Blwyddyn 6 yn y dosbarth yma drwy'r dydd.

11.4.2 Mae'r tabl yn dangos bod 7 dosbarth (Meithrin – Blwyddyn 6) yn Ysgol Cefn Coch (Ionawr 2026). Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Cefn Coch yw 21 dysgwr.

<table>
<tr><th></th><th colspan="11">Blwyddyn</th></tr>
<tr><th>Ysgol</th><th>Meithrin</th><th>0</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th colspan="2">4</th><th colspan="2">5</th><th colspan="2">6</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Y Garreg</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td colspan="2">0</td><td colspan="2">0</td><td colspan="2">2</td></tr>
<tr><td colspan="4">Dosbarth</td><td colspan="7">Dosbarth gyda 2 ddysgwr</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cefn Coch</td><td>16</td><td>20</td><td>22</td><td>21</td><td>23</td><td>10</td><td colspan="2">12</td><td colspan="2">9</td><td>15</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 16</td><td>Dosbarth 20</td><td>Dosbarth 22</td><td>Dosbarth 21</td><td>Dosbarth 23</td><td colspan="3">Dosbarth 22</td><td colspan="3">Dosbarth 24</td></tr>
</table>

11.4.3 Pe byddai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, Ysgol Cefn Coch fyddai'r ysgol ddalgylch i ddysgwyr y dyfodol sydd yn byw yn nalgylch presennol Ysgol Y Garreg. O ganlyniad, byddant yn derbyn eu haddysg mewn dosbarthiadau gyda dysgwyr eraill o'r un grŵp oedran pe fynychir Ysgol Cefn Coch.

11.5 **Ffactorau daearyddol a teithio**

11.5.1 Nodir yn y Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" y dylid ceisio cyfyngu teithio i uchafswm o 30 munud o deithio unffordd rhwng y cartref a'r ysgol. O weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai pob dysgwr presennol y dalgylch o fewn cyrraedd rhesymol (llai na 30 munud o deithio) i'r ysgol amgen, sef Ysgol Cefn Coch.

11.5.2 Yn dilyn asesu pellter Ysgol Y Garreg o Ysgol Cefn Coch a diogelwch llwybrau cerdded a beicio i'r ysgol amgen, deuir i'r casgliad, gan fod y pellter dros 2 filltir a'r llwybrau yn anaddas i blant oed cynradd gerdded na beicio, y byddai cludiant yn cael ei gynnig i ddysgwyr dalgylch Ysgol y Garreg i Ysgol Cefn Coch, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost cludiant oddeutu £30,000-£40,000 y flwyddyn.

11.6 **Adnoddau Ariannol**

11.6.1 Yn sgil niferoedd isel iawn o ddysgwyr yn Ysgol Y Garreg nid yw'r dyraniad ar sail y dysgwyr yn ddigonol i allu cynnal yr ysgol. O ganlyniad, mae Ysgol Y Garreg yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi

gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £89,701 i Ysgol Y Garreg eleni (2025-26) trwy'r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio.

11.6.2 Mae dyraniad Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch ar gyfer y flwyddyn 2025-26, wedi eu selio ar niferoedd Medi 2024 a gellir gweld y symiau y mae'r 2 ysgol yn eu derbyn isod:

| Ysgol | Sail dyraniad (Niferoedd Medi 2024) | | | Dyraniad craidd | Dyraniad cyllidol ychwanegol (gwarchodaeth) | Cyfanswm | £ y dysgwr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M | CS | CA2 | | | | |
| Y Garreg | 1 | 3 | 13 | £150,662 | £89,701 | £240,371 | £14,621 |
| Cefn Coch | 21 | 66 | 72 | £856,802 | £0 | £856,802 | £5,819 |
| **Cyfanswm** | 22 | 69 | 85 | £1,007,464 | £89,701 | £1,076,802 | - |

11.6.3 Mae cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Y Garreg yn £14,621 ac yn £5,819 yn Ysgol Cefn Coch. Cyfartaledd Sirol cost y dysgwr 2025-26 yw £5,780. Golyga hyn fod y gost fesul dysgwr yn Ysgol Y Garreg £8,841 yn uwch na'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod.

11.6.4 Dyrennir cyfanswm o £1,076,802 i'r ddwy ysgol yn y flwyddyn ariannol 2025-26. Nid yw Ysgol Cefn Coch yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae niferoedd dysgwyr presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefelau staffio priodol.

11.6.5 O safbwynt costau refeniw, pe gweithredir y cynnig, a phe byddai dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg yn dymuno mynychu Ysgol Cefn Coch, yn seiliedig ar rhagolygon gyllideb 2026-27 (sy'n seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2025)

- rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £147,845 llai costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £40,000) - sef cyfanswm o oddeutu £107,845 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai dyraniad craidd Ysgol Cefn Coch yn cynyddu i £859,000 a'r gost fesul dysgwr yn £5,859.

11.6.6 Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

11.6.7 Noder nad oes costau cyfalaf ynghlwm â'r cynnig arfaethedig.

11.7 **Arweinyddiaeth a Staffio**

11.7.1 Mae strwythur staffio presennol Ysgol Y Garreg yn cynnwys Pennaeth mewn gofal dros dro sy'n rhannu ei dyletswyddau rhwng Ysgol Y Garreg ac ysgol arall drwy drefniant anffurfiol, ynghyd ag un athro a chymhorthydd rhan amser (0.6 FTE).

11.7.2 Yn Ysgol Cefn Coch, ceir Pennaeth di-gyswllt sydd yn gwario 100% o'i amser yn arwain ffederasiwn Ysgol Cefn Coch (3.5 diwrnod) ac Ysgol Talsarnau (1.5 diwrnod) Mae 6 athro llawn amser a 7 cymhorthydd, ynghyd â swyddog clerigol yn yr ysgol.

11.8 **Y Gymuned**

11.8.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith cymunedol ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 8.1. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

11.8.2 Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Y Garreg. Cydnabyddir y byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanfrothen, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth iawn (92%) o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill. O'r niferoedd dysgwyr sydd yn byw yn y dalgylch, mae 13% yn mynychu Ysgol Cefn Coch, ac felly deuir i'r casgliad fod peth cyswllt rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Ysgol Y Garreg yn bodoli eisoes.

11.8.3 Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad Ysgol Y Garreg, mae'r ysgol yn ymwneud â'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau y gymuned yn achlysurol.

11.8.4 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Cefn Coch. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Y Garreg yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Cefn Coch a chymuned Ysgol Y Garreg, lle'n briodol.

11.8.5 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng Ysgol Cefn Coch a rhieni dysgwyr Ysgol Y Garreg fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.

11.9 **Yr Iaith Gymraeg**

11.9.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

11.9.2 Nodai'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg y rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith rhannol ar rai elfennau yng nghyd-destun y Gymraeg, yn bennaf:

- byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Y Garreg a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Y Garreg yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran, gallai'r cynnig gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr o fewn y dosbarth.
- y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai dysgwyr Ysgol Y Garreg yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion y tu hwnt i oriau ysgol.
- y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai llai o rieni yn debygol o gyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Llanfrothen wrth ddanfon a gollwng plant.

11.9.3 Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir na fyddai effaith ar ddefnydd dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg o'r Gymraeg mewn cyd-destun ffurfiol yn yr ysgol. Serch hynny, rhagwelir y byddai mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol y tu hwnt i oriau ysgol.

11.10 **Ansawdd a safonau addysg**

11.10.1 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar yr holl opsiynau. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

11.10.2 Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae Ysgol Cefn Coch yn cynnig addysg o ansawdd a safon sy'n gyfatebol, ag Ysgol Y Garreg, fan lleiaf.

11.10.3 Cafodd Ysgol Y Garreg ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2023 (fframwaith arolygu newydd) a nodwyd bod 'safon yr addysgu yn gyson dda'. Bu i Estyn gyflwyno'r canlynol fel argymhellion:

- *Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu.*
- *Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rôl arweinyddol, er mwyn cyfrannu at waith a bywyd ehangach yr ysgol.*

11.10.4 Bu i Ysgol Cefn Coch gael eu harolygu diwethaf gan Estyn yn 2018, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn erbyn y cwestiynau deilliannau a'r ddarpariaeth yn Dda, a'r arweinyddiaeth a'r gofal a lles yn Rhagorol (fframwaith adolygu blaenorol).

11.10.5 Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Cefn Coch, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau pe gweithredir y cynnig arfaethedig. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau dysgu ac addysgu dysgwyr dalgylch Y Garreg yn Ysgol Cefn Coch.

11.10.6 Dylid nodi nad pryder ynghylch ansawdd yr addysg bresennol yn Ysgol Y Garreg sydd wedi arwain at y cynnig hwn. Yn wir, oherwydd cymhareb isel iawn o ddysgwr i athro, mae'r plant yn gwneud cynnydd da. Serch hynny, mae'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu o niferoedd isel iawn a dosbarthiadau o niferoedd bychain, yn golygu bod yna gyfyngiadau ar allu'r ysgol i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr feithrin a manteisio ar brofiadau allgyrsiol, cymdeithasol a'r gallu i gydweithio gyda pharau a grwpiau o gyfoedion yn y dosbarth yn unol â gofynion y cwricwlwm.

11.11 **<u>Cyflwr ac addasrwydd adeiladau</u>**


11.11.1 Nodir asesiad cyflwr diweddaraf yr awdurdod fod cyflwr adeiladau Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch yn Categori B.

## 12. GOBLYGIADAU'R CYNNIG


12.1. <u>Dalgylchoedd mynediad i Ysgolion</u>

12.2. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch Ysgol Cefn Coch yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Y Garreg.

**Map 1: Dalgylchoedd presennol Ysgol Y Garreg ac Ysgol Cefn Coch**




**Map 2: Dalgylch Ysgol Cefn Coch os gweithredir y cynnig arfaethedig**



12.3. Cludiant

12.4. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch presennol Ysgol Y Garreg yn cael cynnig lle yn Ysgol Cefn Coch ac yn derbyn cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost blynyddol cludiant o gwmpas £30,000 - £40,000.

12.5. Ystyriaethau Staffio

12.6. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu i gau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026, bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan byddai'r swyddi yn dod i ben pan mae'r ysgol yn cau. Bydd holl rhanddeiliaid yr ysgol yn derbyn y rhybudd statudol gan gynnwys staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r broses cyfnod gwrthwynebu. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith gyflogaeth angenrheidiol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.

**13. YSTYRIAETHAU ERAILL**

13.1. Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru

13.2. Bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion).

13.3. Asesiad effaith cydraddoldeb

13.4. Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

13.5. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

13.6. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y mwyafrif o nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

13.7. Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd mwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

13.8. Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Y Garreg yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

13.9. Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb.

13.10. <u>Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>

13.11. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

13.12. Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanfrothen. Fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Cefn Coch, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Cefn Coch. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Cefn Coch yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

**14. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

| | |
|---|---|
| **Chwefror 2026** | **Cyhoeddi Rhybudd Statudol:** Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn byddai Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi. Caniateir cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig, sef y 'Cyfnod Gwrthwynebu'. |
| **Mai 2026** | **Penderfyniad terfynol ar y cynnig**: Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, os derbynnir gwrthwynebiadau bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r penderfyniad ai peidio. Os na fydd gwrthwynebiadau, neu os bydd pob un wedi eu tynnu nôl gall yr Aelod Cabinet wneud y penderfyniad. |
| **Awst 2026** | **Gweithredu'r Cynnig:** Ysgol Y Garreg yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet. |

---

**15. Atodiadau**

**Atodiad 1:** Tabl Gwerthusiad Opsiynau

**Atodiad 2:** Asesiadau Effaith:
- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar Drefniadau Teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd

**16. Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

*"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol . Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir."*

**Y Pennaeth Cyllid:**

*"Mae'n amlwg o'r dystiolaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad yma nad yw sefyllfa Ysgol y Garreg bellach yn gynaliadwy ac fod angen gweithredu pendant er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."*

## 17. Sylwadau'r Aelod Lleol

*"Mae Ysgol Y Garreg wedi bod yn rhan allweddol o' r gymuned ers dros canrif ac wedi paratoi addysg gwych i blant y fro. Mae yn drist bod y niferoedd wedi gostwng i'r graddau yma. Mae y ddau ddisgybl sydd yn ar ysgol ym Mlwyddyn 6 ac yn symud i Ysgol Uwchradd mis Medi 2026.*

*Fel rhannau eraill o Wynedd ac yn wir y byd gorllewinol mae niferoedd plant wedi gostwng yn sylweddol iawn a trwy reswm yn effeithio nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr.*

*Hefyd mae cymdeithas wedi newid a gyda'r hawl wedi ei roddi ers blynyddoedd bellach i rieni edrych ar addysgu eu plant mewn ysgolion o'u dewis.*

*Credaf ei fod yn bwysig diolch i'r staff am eu ymroddiad i'r dau ddisgybl mewn amgylchiadau anodd ac am gynnig profiadau addysgiadol gwych a difyr iddynt.*

*Hoffwn dynnu sylw at farn y corff llywodraethol sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad."*

*"Pe bai'r Cyngor yn penderfynu cau'r ysgol, hoffwn eich annog yn gryf i ystyried ailstrwythuro'r adeilad fel canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth setlo mewn ysgolion prif lif, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer Ysgol Anghenion Dysgu Arbennig."*